

Cynllun Datblygu Lleol 2006 – 2021

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Cynnwys

Cynnwys	2
1. Crynodeb	3
2. Cefndir	5
3. Methodoleg	6
4. Llygredd ffosforws yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid	8
5. Diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol	10
6. Adolygiad o CDLI Sir Ddinbych 2006-2021	13
7. Darpariaeth tai	14
8. Canlyniadau	19

Atodiad 1 – Taflywybr Tai y CDLI 2022

Atodiad 2 – Perfformiad Polisi Lleol

Atodiad 3 – Monitro Amcanion Gwerthuso Cynaliadwyedd

Awdurdodwyd yr Adroddiad hwn gan Emlyn Jones (Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yng Nghyngor Sir Ddinbych).



Rhuthun, 31 Hydref 2022

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

1. Crynodeb

- 1.1. Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) yn gyfrwng pwysig i asesu cyflawniad Amcanion Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), effeithlonrwydd polisi lleol, yn ogystal â chynnydd o ran datblygiad ar safleoedd a ddyrannwyd. Mae AMB 2022 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Dyma'r 8fed adroddiad sydd wedi ei lunio ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Mehefin 2013.
- 1.2. Ar 21 Ionawr 2021 gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru safonau ffosfforws newydd ar gyfer y naw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yng Nghymru. Y nod yw gwella ansawdd dŵr drwy leihau lefelau llwyth ffosfforws. Dan "Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017" mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych, fel 'Awdurdod Cymwys' (h.y. y sawl sy'n gwneud penderfyniadau), i brofi a yw cynnig cynllunio'n debygol o gael effaith sylweddol ar ACA cyn penderfynu ar y cais. Mae diffyg arbenigedd a chymorth technegol wedi achosi oedi yn y gwaith o gynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ac, yn dilyn hynny, cyflawni cynigion cynllunion sy'n ceisio darparu ar gyfer tai a chyfleusterau cymunedol yn ne Sir Ddinbych.
- 1.3. Hwn yw'r AMB olaf sy'n ymdrin â datblygiadau yng nghyfnod y CDLI mabwysiedig 2006 i 2021. Nid yw'r CDLI wedi darparu 7,500 o anheddau dros y 15 mlynedd ddiwethaf. Darparwyd 3,104 o anheddau'n unig – sy'n llawer is na'r nod. Ar ben hynny, nid oes cynnydd wedi bod yn y safle strategol allweddol ym Modelwyddan oherwydd pryderon hyfywedd, yn cynnwys gosod isadeiledd angenrheidiol cyn dechrau unrhyw waith adeiladu ar y safle. Yr oedd y CDLI yn cynnwys 59.5 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer ei ddatblygu, ond 27.8 hectar yn unig a gwblhawyd rhwng 2006 a 2021.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

1.4. Yn 2017 paratôdd y Cyngor Adroddiad Adolygu sydd wedi canfod yr angen i ddiwygio ei CDLI yn llawn. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 diwygiedig, “Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol” ym mis Medi 2021, gyda’r dyddiad gweithredu 1 Rhagfyr 2021. Ar 23 Tachwedd 2021, gohiriwyd y TAN15 diwygiedig tan 1 Mehefin 2023 gan LIC hyd nes y gwneid mwy o waith gan Gynghorau ar eu Hasesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol. Mae’r gohirio wedi achosi oedi i gadarnhau’r Strategaeth a Ffefrir ac asesu safleoedd ymgeisiol ar gyfer CDLI Newydd 2018 i 2033. Mae’r Cyngor yn y broses o adolygu’r Cytundeb Cyflawni gyda’r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen cyflawni.

1.5. Nid oes unrhyw newid sylweddol ym mherfformiad polisi lleol o’i gymharu ag AMB blaenorol. Nodwyd nifer o bolisïau lleol ar gyfer eu ‘hadolygu’ dros y blynyddoedd diwethaf. Maent yn gysylltiedig yn bennaf ag elfennau strategol y CDLI, megis darparu tai a datblygu canol trefi. Y mae disgwyliad cyfyngedig y bydd perfformiad y polisïau lleol hynny’n newid tan fydd y CDLI Newydd yn dod yn weithredol.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

2. Cefndir

2.1. Paratoir CDLI gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) i siapio ac arwain cynigion datblygu i leoliadau cynaliadwy, ac yna cyflawni'r raddfa a'r math o dwf a nodwyd ar gyfer cyfnod y cynllun.

2.2. Maent yn cynnwys strategaeth, polisiau lleol a dyraniadau safleoedd i fynd i'r afael â chyflleoedd twf a materion allweddol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Y diben yw galluogi gwneud penderfyniadau cyson a thryloyw.

2.3. Mabwysiadwyd CDLI 2006-2021 Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) ar 4 Mehefin 2013. Gan fod cyfnod y cynllun wedi mynd heibio, cadarnhaodd LIC ym mis Medi 2021 fod CDLI CSDd yn dal i fod yn berthnasol ar gyfer gwneud penderfyniadau o ran Rheoli Datblygiad ac apeliadau cynllunio hyd nes y'i disodlir gan y CDLI Newydd, gweler AMB CSDd 2021.

2.4. Mae AMB yn gyfrwng pwysig i asesu cyflawniad Amcanion Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), effeithlonrwydd polisi lleol, yn ogystal â chynnydd o ran datblygiad ar safleoedd a ddyrannwyd. Mae pob CDLI yn cynnwys fframwaith monitro a oedd yn destun archwiliad annibynnol. Heblaw am fonitro perfformiad polisiau lleol, mae AMB hefyd yn adrodd am effaith newidiadau cenedlaethol ar ardaloedd

2.5. Mae'n ddyletswydd ar bob ACLI i lunio AMB ar gyfer y CDLI mabwysiedig o dan rwymedigaethau Adran 3 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Ar ôl cwblhau'r ddogfen mae'n rhaid ei chyflwyno i LIC erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, ac mae'n rhaid ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

3. Methodoleg

3.1. Mae AMB 2022 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Dyma'r 8fed adroddiad sydd wedi ei lunio ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Mehefin 2013. Mae tabl 31 "Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Argraffiad 3" (Mawrth 2020) LIC yn diffinio cynnwys yr AMB, tra mae Pennod 7 CDLI CSDd yn cynnwys y fframwaith monitro sy'n darparu'r templed ar gyfer y tablau asesu yn AMB 2022. Mae'n nodi manylion dangosyddion, targedau a sbardunau adolygu i fonitro perfformiad yn gyson dros gyfnod y CDLI.

3.2. Lluniwyd y fframwaith monitro yn unol ag amcanion polisi, targedau rhaglenni a thystiolaeth a oedd yn gyfredol ar amser paratoi'r CDLI, cyn ei fabwysiadu. Mae rhagolygon demograffig a pholisi cenedlaethol wedi newid ers Mehefin 2013. Er enghraifft, mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd LIC ar gyfer Sir Ddinbych lawer is na'r amcanestyniadau a ddefnyddiwyd i lunio'r CDLI. Dirymwyd "Cydstudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai" TAN 1, gan gynnwys y gofyniad cyflenwad o dir ar gyfer tai am 5 mlynedd. Gan fod y fframwaith monitro'n rhan o'r CDLI mabwysiedig, y mae hyblygrwydd cyfyngedig o ran addasu dangosyddion unigol.

3.3. Asesir Polisi Lleol ac Amcanion Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) – gweler Atodiadau 2 ar 3 – yn seiliedig ar wybodaeth a geir o lawer o adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd: cofnodion cynllunio Rheoli Datblygiad, ystadegau cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal ag arolygon maes dethol.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

3.4. Mae'n hanfodol rhoi sylw i gyfyngiadau data a gwybodaeth a ddefnyddir at ddibenion monitro er mwyn deall y canlyniadau ac, o bosibl, cymharu canlyniadau gwahanol flynyddoedd. Bydd y math hwn o arbenigedd yn cynorthwyo'r gwaith o lunio fframwaith monitro ar gyfer y CDLI Newydd.

1. Amser ac amllder: Mae ystadegau wedi eu seilio'n bennaf ar adeg benodol yn hytrach na'r cyfnod monitro. Efallai na fyddant yn cael eu casglu'n flynyddol, neu'n amodol ar newidiadau o ran diffiniadau, ac ati;
2. Sicrwydd ansawdd wrth ddefnyddio gwybodaeth gan drydydd partïon; a
3. Gallai ystyriaethau materol gael blaenoriaeth dros bolisi lleol yn y broses benderfynu.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

4. Llygredd ffosforws yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid

- 4.1. Gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru safonau ffosforws newydd ar gyfer y naw ACA afonol yng Nghymru ar 21 Ionawr 2021. Y nod yw gwella ansawdd dŵr drwy leihau lefelau llwyth ffosforws, sy'n oddeutu 50% i 80% yn is na'r safonau blaenorol. Mae'r adroddiad asesu ar gydymffurfio â'r targedau ffosforws llymach wedi dangos nad yw oddeutu 38% o'r dyfroedd a arolygwyd yn ardaloedd cydymffurfio "ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid" yn cyrraedd y targedau
- 4.2. Mae Rhan 6 "Asesu Cynlluniau a Phrosiectau" Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) yn rhoi'r ddyletswydd ar Gyngor Sir Ddinbych, fel 'Awdurdod Cymwys' (h.y. y sawl sy'n gwneud penderfyniadau), i brofi a yw cynnig cynllunio'n debygol o gael effaith sylweddol ar ACA o ystyried yr effaith posibl ar amcanion cadwraeth yr ACA cyn rhoi caniatâd.
- 4.3. *Mae Cynllun Rheoli Craidd ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (2008) yn cynnwys yr amcan cadwraeth canlynol ar gyfer Afon Dyfrdwy: "Gwneir penderfyniad ynglŷn â lefelau maethynnau, yn arbennig ffosffad, gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a CCGC ar gyfer pob corff dŵr Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, a'r mesurau i'w cymryd i gadw'r maethynnau o dan y lefelau hyn", ac "Wrth asesu cynlluniau a phrosiectau, ystyrir ffynonellau posibl o lygredd, gorfaethu a/neu solidau crog na roddwyd sylw iddynt yn yr Adolygiad Cydsyniadau, megis llygredd gwasgaredig neu aflonyddu ar waddodion (heb fod yn gyfyngedig i hyn)."*

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

4.4. Yr oedd CDLI CSDd yn amodol ar ARhC ac fe'i mabwysiadwyd ar y sail na fyddai'r ddogfen yn cefnogi cynigion cynllunio a allai effeithio'n niweidiol ar unrhyw nodweddion cymhwysio safle. Ers cyflwyno'r targedau newydd ar gyfer safonau ffosffad ar ôl mabwysiadu'r CDLI yn 2013, ni all Swyddogion droi at Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDLI i ddod i'r casgliad nad yw cynigion, sydd yn unol â pholisi lleol, yn effeithio'n sylweddol ar amcanion cadwraeth ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Felly, mae'n rhaid i'r holl gynigion cynllunio ar gyfer tir sydd mewn ardal wedi ei dynodi'n sensitif o ran ffosfforws, neu ardal gydymffurfiaeth ffosfforws, fod yn destun ARhC. Mae'r ardal sy'n sensitif oherwydd ffosfforws yn cynnwys tua 42% o'r sir.

4.5. Mae diffyg arbenigedd a chymorth technegol wedi achosi oedi yn y gwaith o gynnal ARhC ar gyfer cynigion datblygu a fyddai'n arwain at godi tai newydd. Gadawyd CSDd heb unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r broses dechnegol a'r cyfrifiadau sydd eu hangen i fesur swm y ffosffad a gynhyrchir gan ddatblygiadau newydd, a sut y gallai'r llwyth ychwanegol effeithio ar amcanion cadwraeth y safle. Nid oes rhestr o fesurau lliniaru derbyniol posibl chwaith.

4.6. Nid oes gan yr ACLI unrhyw fodd o asesu'r tebygolrwydd o effeithiau sylweddol na chanfod llwybrau manwl rhwng tarddiad ac ACA, ac felly ni all gydymffurfio â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. O ganlyniad, mae ceisiadau cynllunio sydd o fewn yr ardal berthnasol yn cael eu cadw heb eu penderfynu, yn cael eu gwrthod ar y sail nad oes digon o wybodaeth i ganfod a oes cydymffurfiaeth â'r ARhC, neu'n cael eu tynnu'n ôl gan yr ymgeiswyr. Ym mis Medi 2022, yr oedd gan yr ACLI 43 o geisiadau cynllunio heb eu penderfynu a fyddai'n gallu darparu hyd at 137 o anheddau, gan gynnwys 12 uned fforddiadwy, yn ogystal â chynlluniau masnachol a thwristiaeth. Bydd hyn, o ganlyniad, yn cael effaith negyddol ar gyfradd cyfartaledd blynyddol tai a gwblhawyd yn y blynyddoedd i ddod.

4.7. Bydd hyn, o ganlyniad, yn cael effaith negyddol ar gyfradd cyfartaledd blynyddol tai a gwblhawyd yn y blynyddoedd i ddod.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

5. Diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol

5.1. Mabwysiadwyd y CDLI ar 4 Mehefin 2013. Fe'i lluniwyd a'i harchwiliwyd ar sail tystiolaeth a ffigyrau twf amcanestynedig ar gyfer cyfnod y cynllun 2006 i 2021. Y prif amcanion oedd canolbwyntio ar ddarparu 7,500 annedd, 59.5 hectar o dir cyflogaeth, Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan, a darparu datblygiad yn unol â'r Strategaeth Ofodol ac Anheddu.

5.2. Mae'r ddau dabl canlynol yn nodi nifer yr anheddau sydd wedi eu cwblhau ers dechrau cyfnod y cynllun yn 2006. Dangosir y ffigyrau yn unol â Strategaeth Dwf y CDLI, gweler tabl 1, a Strategaeth Ofodol y CDLI, gweler tabl 2.

Tabl 1: Tai a gwblhawyd yn unol â Strategaeth Dwf y CDLI

Strategaeth Dwf y CDLI	Nifer y tai	Canran
Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan	0	0
Trefi Twf Llai	2292	74%
Pentrefi	441	14%
Pentrefannau	30	1%
Cefn Gwlad Agored	341	11%
Cyfanswm	3104	100%

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022)

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

5.3. Nid yw'r CDLI wedi darparu 7,500 o anheddau dros y 15 mlynedd ddiwethaf.

Darparwyd 3,104 o anheddau'n unig – sy'n llawer is na'r nod. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd rhy uchel a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r gofynion anheddau yn y Sir. Yr oedd amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddarach gryn dipyn yn is na'r rhai a ddefnyddir ar gyfer paratoi'r CDLI. Ar ben hynny, nid oes cynnydd wedi bod yn y safle strategol allweddol ym Modelwyddan oherwydd pryderon hyfywedd, yn cynnwys gosod isadeiledd angenrheidiol cyn dechrau unrhyw waith adeiladu ar y safle.

5.4. Er na ddarparodd y CDLI niferoedd tai yn rhifyddol, mae tabl 2 yn dangos bod tai wedi bod yn cael eu cwblhau yn unol â Strategaeth Dwf ac Anheddu'r CDLI. Yr oedd 88% o'r holl dai newydd mewn Trefi Twf Llai a Phentrefi

Tabl 2: Tai a gwblhawyd yn unol â Strategaeth Ofodol y CDLI

Lleoliad	Nifer y tai	Canran
Gogledd y Sir	1663	54%
Yr Ardal Ganolog	1050	34%
De'r Sir	391	12%
Cyfanswm	3104	100%

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022)

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

- 5.5. Yr oedd y CDLI yn cynnwys darparu 59.5% hectar o dir cyflogaeth er mwyn i'r economi leol dyfu; yn ogystal â thri safle tir llwyd lle mae'n flaenoriaeth i'w datblygu, a pharseli bach o dir sydd ar gael mewn ardaloedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli. Cofnododd adolygiadau blynyddol o dir cyflogaeth 27.8 hectar o ddatblygiadau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y cynllun; er gwaethaf argyfwng bancio 2008 a'r dirwasgiad dilynol yn y DU. Pe bai Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi ei ddarparu yn ôl y disgwyl, byddai hyd at 53.6 hectar o dir cyflogaeth wedi ei gwblhau.
- 5.6. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru i'r holl awdurdodau cynllunio lleol ym mis Medi 2022 i gadarnhau y "Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio hyd nes y bydd CDLI pellach yn eu disodli". O ran polisi, mae Sir Ddinbych yn parhau i ddefnyddio polisi lleol sydd wedi ei nodi yn y CDLI mabwysiedig, ond mae'n rhaid cadw at bolisi cenedlaethol a pholisi cynllun datblygu "Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040", os oes unrhyw wrthdaro.
- 5.7. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw offeryn na mecanwaith ar gyfer rhoi cyfrif am y rhagolygon twf economaidd neu'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is sydd wedi eu cyhoeddi ers mabwysiadu'r CDLI. Daeth cyfnod y cynllun i ben ddiwedd 2021, ond mae'r CDLI yn parhau i fod yn berthnasol i benderfyniadau cynllunio. Wrth symud ymlaen, nid yw ffigyrau twf a'r gofyniad i gwblhau cyfartaledd o 500 uned y flwyddyn yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn mwyach. Nid yw CDLI Newydd CSDd 2018 i 2033 wedi ei ddatblygu ddigon i gyrraedd cam lle gallai ffigyrau twf newydd fod yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar gynigion cynllunio. Mae'r lefel twf arfaethedig angen cyfanswm o 3,775 uned, sy'n 50.3% yn unig o'r 7,500 yn y CDLI mabwysiedig.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

6. Adolygiad o CDLI Sir Ddinbych 2006-2021

6.1. Yn 2017 paratôdd y Cyngor Adroddiad Adolygu sydd wedi canfod yr angen i ddiwygio ei CDLI yn llawn. Y mae'r materion a ystyrir yn yr adroddiad yn ddigon pwysig i gynorthwyo'r gwaith o baratoi CDLI diwygiedig.

6.2. Mae tair prif elfen yn y CDLI mabwysiedig sydd angen sylw arbennig wrth baratoi CDLI Newydd ar gyfer y Sir. Mae dwy ohonynt wedi eu hamlygu ar gyfer eu hadolygu yn Adroddiad Adolygu'r CDLI 2017 ac AMB blaenorol.

1. Darparu tai'r farchnad a thai fforddiadwy mewn lleoedd sydd eu hangen ar frys ar gyfer cymunedau lleol. Mae'n rhaid i dargedau newydd roi sylw i amcanestyniadau diwygiedig gan Lywodraeth Cymru.
2. Mynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.
3. Adfywio canol trefi: Newidiadau i bolisi cenedlaethol ar arallgyfeirio canol trefi wrth ymateb i ddirywiad canol trefi ac effeithiau pandemig Covid 19.

6.3. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 diwygiedig, "Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol" ym mis Medi 2021, gyda'r dyddiad gweithredu 1 Rhagfyr 2021. Mae cyngor technegol newydd a mapiau llifogydd yn hanfodol i strategaeth ofodol y CDLI ac wrth asesu safleoedd ymgeisiol, gan fod ardaloedd mawrion o'r sir yn agored i berygl llifogydd. Ar 23 Tachwedd 2021, gohiriwyd y TAN15 diwygiedig tan 1 Mehefin 2023 gan LIC hyd nes y gwneid mwy o waith gan Gyngorau ar eu Hasesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol. Mae'r gohirio wedi achosi oedi i gadarnhau'r Strategaeth a Ffebrir ac asesu safleoedd ymgeisiol ar gyfer CDLI Newydd 2018 i 2033.

6.4. Mae'r Cyngor yn y broses o adolygu'r Cytundeb Cyflawni gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen cyflawni

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

7. Darpariaeth tai

7.1. Paratowyd y CDLI yn unol â “Chydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai” TAN 1. Yr oedd y ddogfen yn nodi'r angen i awdurdodau cynllunio lleol lunio Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn flynyddol a rhoi gwybod am y nifer o dai a gwblheir yn flynyddol yn ôl y gofyniad am gyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd. Ers 2015 mae'r Cyngor wedi methu dangos ei fod yn gallu cyrraedd y targed tai fel y nodwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol. Mae paragraff 5.2 Adroddiad Adolygu'r CDLI (Rhagfyr 2017) yn nodi'r diffyg parhaus o gyflenwad tir ar gyfer tai fel un o'r prif resymau dros adolygu'r CDLI mabwysiedig.

7.2. Dilëwyd TAN 1 LIC yn 2020; gan gynnwys y gofyniad gorfodol i lunio Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai a rhoi gwybod am ffigwr blynyddol cyflenwad tir ar gyfer tai yn yr AMB. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi parhau i lunio Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai oherwydd ei werth wrth fonitro cyfraddau cwblhau blynyddol a dosbarthiad gofodol datblygiadau. Bydd y wybodaeth hon yn dystiolaeth hanfodol ar gyfer llywio'r gwaith o lunio'r CDLI Newydd.

7.3. Mae “Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Argraffiad 3” (Mawrth 2020) LIC yn nodi'r dull newydd o fonitro cyflenwad tai drwy roi pwyslais sylweddol ar daflwybrau tai. Yn hytrach na chyfrifo ffigwr cyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd, mae taflwybrau tai yn canolbwyntio ar gymhariaeth rhwng y gyfradd flynyddol ddisgwyliedig o dai a adeiladwyd, fel y'i nodir yn y CDLI mabwysiedig, a'r gyfradd flynyddol wirioneddol o dai a adeiladwyd.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

7.4. Nid oedd gan CDLI CSDd 2006-2021 daflwybr tai, yn cynnwys Cyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir wedi ei mireinio, a fyddai'n creu pwynt cyfeirio ar gyfer unrhyw gymhariaeth yn y dyfodol. "Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylai'r ACLI hynny a fabwysiodd eu CDLI cyn i'r LICD (Argraffiad 3) gael ei gyhoeddi, ddefnyddio dull y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog fel y prif ddangosydd i fesur faint o dai a gyflenwyd, a chynnwys y dull taflwybr mewn AMB yn y dyfodol" (cyf. paragraff 8.14 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3'). Y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (GBC) yw 500 uned y flwyddyn i'w darparu yn Sir Ddinbych (cyf. CDLI CSDd, Tabl Graddoli, t.130).

7.5. Ystyriwyd cyflenwad blynyddol o dai yng ngoleuni cyfnodau dau gynllun ers 2018: (1) y CDLI mabwysiedig 2006 i 2021, a (2) y CDLI Newydd 2018 i 2033. Er nas datblygwyd ddigon er mwyn bod yn berthnasol i benderfyniadau cynllunio, mae'r Strategaeth a Ffeirir sydd yn y CDLI Newydd yn cynnig lefel llawer is o dwf amcanestynedig na'r un sydd yn y CDLI mabwysiedig. Mae hyn wedi arwain at GBC is ar gyfer y CDLI Newydd, h.y. 218 uned y flwyddyn. Y mae, o ganlyniad, wahaniaeth mawr yn y gofyniad tai blynyddol rhwng y CDLI mabwysiedig (500 y flwyddyn) a'r CDLI Newydd (218 y flwyddyn). Barn y Cyngor yw bod y GBC ar gyfer y CDLI Newydd yn cyflwyno lefel resymol o dwf, sy'n seiliedig ar "Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd 2017" LIC.

7.6. Mae Tabl 3 yn rhestru'r cydrannau sy'n ffurfio'r sail ar gyfer cyfrifiadau cyflenwad tir ar gyfer tai, ac mae Atodiad 1 yn cyflwyno'r ffigyrau manwl ar gyfer Sir Ddinbych yn 2021/2022.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

7.7. Tabl 3: Cydrannau o gyflenwad tai

Cyfran	Sylwadau
Wedi eu cwblhau	Ffigwr yn cynnwys unrhyw dai y cofnodwyd eu bod wedi eu cwblhau yn yr adroddiad monitro. Mae hyn yn cynnwys datblygiad ar safleoedd a ddyrannwyd a hap-safleoedd, beth bynnag fo'u maint a'u math. Ers 2018, mae CSDd hefyd yn cyfrif y nifer sydd wedi eu cwblhau tuag at ofyniad tai y CDLI Newydd.
Dyraniadau safleoedd ar gyfer datblygiad preswyl	Mae'r rhain yn safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn y CDLI mabwysiedig, 2006 i 2021, ond sydd heb gael caniatâd cynllunio. Mae Taflwybr Tai CSDd, gweler Atodiad 1, yn nodi pryd mae'r Cyngor yn disgwyl eu bod yn cael eu darparu.
Ymrwymadau / Banc Tir	Mae'r rhain yn safleoedd ar gyfer datblygiad preswyl sydd wedi cael caniatâd cynllunio sydd heb ei weithredu eto. Mae Taflwybr Tai CSDd, gweler Atodiad 1, yn nodi pryd mae'r Cyngor yn disgwyl eu bod yn cael eu darparu

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Cyfran

Sylwadau

Hap-safleoedd (tir)


Mae'r rhain yn barseli o dir sydd heb eu dyrannu'n benodol ar gyfer datblygiad preswyl yn y CDLI mabwysiedig, ond gellir eu cyflwyno ar gyfer tai yn ystod oes y CDLI. Maent yn cael eu dosbarthu i rai 'mawr' (10 uned neu fwy), safleoedd bach (llai na 10 uned), neu addasiadau.

Mae cyfrifiadau cyflenwad tir ar gyfer tai yn cynnwys lwfans ar gyfer hap-safleoedd sy'n seiliedig ar lefelau darpariaeth yn y gorffennol. (Gweler Atodiad 1, tabl 2.) Ffigwr cyfartaledd 5 mlynedd ar gyfer cyflenwi hap-safleoedd yw 90 uned y flwyddyn. Fodd bynnag, mae wedi ei ostwng i 50 uned y flwyddyn yn y Strategaeth Ddrafft a Ffeirir yn y CDLI Newydd, ac, felly, wedi ei gynnwys yn y taflwybr tai.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

7.8. Mae Siart 1 yn dangos y nifer gwirioneddol a gwblhawyd, a'r nifer disgwyliedig (h.y. amcanestynedig), o'u cymharu â'r ddau GBC ar gyfer y cyfnod 2018 i 2026. Dylid nodi na lwyddodd y nifer gwirioneddol a gwblhawyd i gyrraedd targed GBC y CDLI mabwysiedig mewn unrhyw flwyddyn, ond mae wedi mynd y tu hwnt i darged GBC y CDLI Newydd ers 2019. Mae cyfanswm y cyflawniadau a ragwelir yn gostwng yn y blynyddoedd nesaf oherwydd bod mwy o gyfyngiad yn y CDLI mabwysiedig yn y nifer o ddyraniadau safleoedd preswyl heb eu datblygu sydd ar gael. Yn ystadegol, mae'r Cyngor yn disgwyl cyfradd gyfartalog flynyddol o 287 annedd wedi eu cwblhau yn y cyfnod 2018 i 2026.

7.9. Siart 1: Wedi eu cwblhau – gwirioneddol a disgwyliedig



Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych (2022)

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

8. Canlyniadau

8.1. Mae'r Cyngor wedi paratoi AMB ers 2014. Nid oes unrhyw newid sylweddol ym mherfformiad polisi lleol o'i gymharu ag AMB blaenorol. Nodwyd nifer o bolisiau lleol ar gyfer eu 'hadolygu' dros y blynyddoedd diwethaf. Maent yn gysylltiedig yn bennaf ag elfennau strategol y CDLI, megis darparu tai a datblygu canol trefi. Y mae disgwyliad cyfyngedig y bydd perfformiad y polisiau lleol hynny'n newid tan fydd y CDLI Newydd yn dod yn weithredol.

8.2. Mae LIC yn defnyddio nifer o 'ddangosyddion craidd' y mae'n eu hystyried yn hanfodol i asesu effaith y polisi cenedlaethol ym mhob ardal awdurdod lleol. Maent wedi eu nodi yn nhabl 29 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 (Mawrth 2020)' LIC, a rhaid adrodd arnynt ym mhob AMB. Dylid nodi y mabwysiadwyd CDLI Sir Ddinbych cyn i'r 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3' gael ei gyhoeddi, sy'n golygu nad yw'n cynnwys yr holl elfennau mae LIC angen eu monitro.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

8.3. Tabl 4: Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (2020), tabl 29, dangosyddion craidd

Dangosydd	Canlyniad (2021/2022)
Nifer ychwanegol net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad a adeiladwyd yn ardal y CDLI.	Tai ychwanegol net: 417 uned; Tai fforddiadwy ychwanegol net: 113 uned.
Dosbarthiad gofodol y datblygiadau tai.	Gweler paragraffau 5.2 i 5.4.
Lefel flynyddol y tai a gwblhawyd wedi ei fonitro yn ôl y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (AABR). Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi ei fonitro yn ôl y gyfradd cwblhau tai gronnol ddisgwyliedig. Y lefel o dai fforddiadwy a gwblhawyd wedi ei fonitro yn ôl targed cyffredinol y cynllun. Deiliadaeth tai fforddiadwy wedi eu cwblhau.	Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2018 yn 2013; cyn i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 gael ei gyhoeddi. Mae Adran 7 ac Atodiad 1 AMB CSDd 2022 yn nodi gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r taflwybr tai ar gyfer y Sir. Fodd bynnag, nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys taflwybr tai ac elfennau cysylltiedig. Dangosir data er gwybodaeth yn unig. Ceir gwybodaeth fonitro ynglŷn â darparu anheddau'r farchnad ac anheddau fforddiadwy yn Atodiad 2 'Perfformiad Polisi Lleol'.
Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn ôl dyraniadau.	Mae Strategaeth y CDLI yn darparu 59.5 hectar o dir cyflogaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2006-2021. Nid oes fawr o werth i fonitro'r targed o 59.5 hectar yn ôl dyraniadau safleoedd perthnasol, gan nad oedd y dyraniadau tir na'r ffiniau safleoedd diwygiedig wedi eu gosod cyn mabwysiadu'r CDLI ym mis Mehefin 2013.
Twf swyddi.	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys unrhyw dargedau ar gyfer twf swyddi yng nghyfnod y Cynllun.
Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy – trothwyon a thargedau canrannol ar gyfer pob ardal is-farchnad.	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynglŷn â darparu tai fforddiadwy ar gyfer ardaloedd is-farchnad yn Sir Ddinbych.
Hyfywedd	Nid yw'r ACLI yn cofnodi gwybodaeth..

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Dangosydd	Canlyniad (2021/2022)
Cyfradd datblygiad ar ddyraniadau allweddol (tai a gwblhawyd yn gysylltiedig i daflwybrau graddol a chynlluniau isadeiledd, lle bo'n briodol).	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys unrhyw wybodaeth am raddoli datblygiad a ddefnyddid at ddibenion monitro.
Darparu isadeiledd allweddol sy'n sail i strategaeth y cynllun.	Dim.
Cwblhau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn diwallu angen a nodwyd.	Gwnaeth y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2017. Mae Asesiad newydd wedi ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Cyngor, ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fis Rhagfyr 2021. Disgwylir ei gymeradwyo ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.
Graddfa / math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2.	Dim.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

8.4. Mae Tabl 5 yn darparu trosolwg o'r symbolau sydd wedi eu deillio i fod o fudd gweledol o ran cyflwyno perfformiad polisi lleol.

8.5. Tabl 5: Symbolau perfformiad

Symbol	Sylwadau
COCH	Cyrhaeddodd y dangosydd polisi y trothwy ar gyfer cymryd camau neu adolygu, a rhaid adolygu polisi lleol.
OREN	Cyrhaeddodd y dangosydd polisi y trothwy ar gyfer cymryd camau neu adolygu, ond mae'n fater de minimis ac yn eithriad a gyfiawnheir.
GWYRDD	Ni chyrrhaeddodd y dangosydd polisi'r trothwy ar gyfer cymryd camau nac adolygu, sy'n golygu bod y polisi'n cyrraedd y targed.

8.6. Mae Tabl 6 yn cyflwyno trosolwg o'r polisiau lleol hynny sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer adolygu; h.y. ni ddarparwyd y canlyniadau disgwylidig ganddynt. Mae Atodiadau 2 a 3 yn cynnwys tablau monitro manwl ar gyfer polisi lleol a fframwaith Arfarniad Cynladwyedd (AC).

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

8.7. Tabl 6: Polisiâu lleol yn methu perfformio

Polisi Lleol	Sylwadau
<p>BSC 1 – Diwallu anghenion tai'r Sir.</p> <p>BSC 4, 8, 9 – Cynyddu nifer yr anheddau fforddiadwy newydd a adeiledir yn y Sir.</p>	<p>Fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu'r CDLI (2017), mae Strategaeth Dwf y CDLI a chyflenwad tai'r farchnad a thai fforddiadwy yn methu ar y cyflenwad (mathemategol) gwael o anheddau. Cafodd targedau cyflenwi eu gosod ar sail ffigyrau 'Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd' Llywodraeth Cymru, sydd wedi eu profi'n ffigurau oedd wedi eu gor-amcangyfrif yn fawr. Mae'r Strategaeth Ddrafft a Ffefrir ar gyfer y CDLI nesaf 2018-2033 yn nodi ffigwr blynyddol o 218 o unedau, o'i gymharu â 750 o unedau ar gyfer Cyfnod 3 yn y CDLI a fabwysiadwyd.</p> <p>Fodd bynnag, dylid nodi bod y Cyngor yn cyflenwi tai fforddiadwy mewn nifer o ddulliau eraill heblaw am y CDLI. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio grant tai cymdeithasol i roi cartrefi gwag mewn defnydd eto a gweithio gyda'n partneriaid tai.</p>
<p>BSC 10 – Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr</p>	<p>Gwnaeth y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2017. Mae Asesiad newydd wedi ei baratoli a'i gymeradwyo gan y Cyngor. Fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ddiwedd 2021 ac mae'n disgwyl cael ei gymeradwyo.</p>
<p>PSE 6, 8, 9 – Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.</p>	<p>Cyflwynodd Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) a Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11 (2021) newid mewn polisi cenedlaethol mewn perthynas â'r egwyddor o ddatblygu canol trefi, gan fynd i'r afael â'r dirywiad mewn defnydd manwerthu drwy roi cefnogaeth gref i ddefnyddiau cyflenwol. Mabwysiadwyd polisi lleol yn 2013, yn canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn manwerthu lle'r oedd cynnydd mewn defnydd nad oedd yn ddefnydd manwerthu yn cael ei ystyried yn annymunol.</p>
<p>BSC 5 – Cyflenwi'r Safle Strategol Allweddol.</p>	<p>Daeth caniatâd cynllunio amlinellol i ben ym mis Mawrth 2021.</p>
<p>VOE 1 - Datblygiad amhriodol uniongyrchol oddi wrth y gorlifdir.</p>	<p>Rhodddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad hynod o fregus nad oedd yn bodloni holl brofion Nodyn Cyngor Technegol 15, yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.</p>

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

8.8. Datblygwyd fframwaith monitro'r AC i asesu'r cyd-destun amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol y mae'r CDLI yn gweithredu ynddo. Y disgwyliad yw bod y CDLI yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at fynd i'r afael â materion allweddol y Sir. Mae monitro AC hefyd yn ystyried yn gyfannol effeithiau gwneud penderfyniadau ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Atodiad 1 – Taflwybr Tai y CDLI 2022

Tabl 1: Taflwybr Tai y CDLI

Blwyddyn CDLI	1	2	3	4	5	6	7	8	9
Blwyddyn	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27
Gwir Gyflawniadau a Gofnodwyd (Safleoedd Mawr)	78	201	383	398					
Gwir Gyflawniadau a Gofnodwyd (Safleoedd Bach)	46	41	56	24					
Cyflawniadau a Ragwelir ar Safleoedd a Ddyrannwyd					35	35	35	29	5
Cyflawniadau Banc Tir a Ragwelir					328	157	54	37	30
Cyflawniadau a Ragwelir ar Hap-Safleoedd Mawr					0	0	25	25	25
Cyflawniadau a Ragwelir ar Hap-Safleoedd Bach					25	25	25	25	25
Cyfanswm cyflawniadau	124	242	439	422	388	217	139	116	85
Cyfanswm Cyflawniadau Cronnus a Ragwelir	124	366	929	1351	1739	1956	2095	2211	2296

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Tabl 2: Dadansoddiad hap-safleoedd

Blwyddyn	Cyfanswm nifer y cyflawniadau ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd	Cyfanswm nifer y cyflawniadau ar gyfer hap-safleoedd mawr ≥ 10 uned	Cyfanswm nifer y cyflawniadau ar gyfer hap-safleoedd bach < 10 uned	Trawsnewid Hap-safleoedd
2015-16	28	27	28	44
2016-17	70	57	24	30
2017-18	87	57	38	14
2018-19	62	16	27	19
2019-20	171	30	13	28
2020-21	351	32	32	24
2021-22	269	129	15	9
Cyfanswm	1038	348	177	168
Cyfartaledd blynyddol	148	50	25	24

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Table 4: Safleoedd a ddyrannwyd

Atodlen Safleoedd a Ddyrannwyd 2022 Sir Ddinbych

Rhagolygon Cyflawniadau

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uneda u a adeila dwyd Cyfans ers yr wm astudi Capasit aeth i'r Uneda ddiwet Uneda u yn haf u		Uneda weddill U/C	2023	2024	2025	2026	2027	2027+	Sylwadau		
			0	1715										
Safleoedd Sector Preifat														
3616	Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan	Bodelwyddan	0	1715	1715	0	0	0	0	0	0	1715	0	Caniatâd amlinellol wedi dod i ben
3635	Maes Parcio Dinorben Arms	Bodfari	0	14	14	0	0	0	0	0	0	0	14	Defnydd arall
3636	Tir y tu ôl i Bryn Orme	Bodfari	0	15	15	0	0	0	0	0	0	15	0	Dim cynnydd
3637	Tir y tu ôl i Bryn Awel	Bryneglwys	0	10	10	0	0	0	0	0	0	10	0	Dim cynnydd
3639	Tir ger Maes Sidan	Carrog	0	15	15	0	0	0	0	0	0	15	0	Dim cynnydd
3	Ysgol Caer Drewyn	Corwen	0	89	89	0	0	0	0	0	0	89	0	Dim cynnydd
3632	Depo'r Cyngor, Clawdd Poncen	Corwen	0	128	128	0	0	0	0	0	0	128	0	Dim cynnydd

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uneda u a adeila dwyd ers yr astudi aeth i'r ddiwet	Cyfans wm Capasit i'r Uneda u yn weddill	U/C	2023	2024	2025	2026	2027	2027+	Sylwadau	
3642	Tir ger Bryn Gwynt	Cynwyd	0	15	15	0	0	0	5	5	5	0	0 Materion priffyrdd
11	Tir ger yr Eglwys Gatholig	Dinbych	0	25	25	0	0	0	0	0	0	25	0 Dim cynnydd
3377	Gorsaf Wasanaeth Ffordd y Ffair	Denbigh	0	12	12	0	0	0	0	0	0	0	12 In alternative use
3627	Tir ger Ysgol Heulfre	Dinbych	0	99	99	0	0	0	0	0	0	99	0 Gwrthod yn 2022
3645	Tir y tu ôl i Res New Inn	Glyndyfrdwy	0	30	30	0	0	0	0	0	0	30	0 Aros am benderfyniad ar y cais
3668	Tir y tu ôl i Res Beuno	Gwyddelwern	0	12	12	0	0	0	0	0	0	12	0 Dim cynnydd
3648	Tir y tu ôl i Maes Garmon	Llanarmon yn Iâl	0	34	34	0	0	0	0	0	0	34	0 Problemau ffosffad
3649	Tir ger Troed y Fenlli	Llanbedr DC	0	10	10	0	0	0	0	0	0	10	0 Dim cynnydd
3650	Tir y tu ôl i Lwyn Derw	Llanbedr DC	0	10	10	0	0	0	0	0	0	10	0 Dim cynnydd

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uneda u a adeila dwyd Cyfans ers yr wm astudi Capasit aeth i'r Uneda ddiwet Uneda u yn haf u weddill U/C	2023	2024	2025	2026	2027	2027+	Sylwadau		
3651	Tir i'r gogledd orllewin o Maes Derwen	Llanbedr DC	0 18 18 0 0 0 0 0 18 0	0	18	18	0	0	0	18	0	Dim cynnydd
18	Cae'r Ficerdy	Llanbedr DC	0 25 0 0 0 0 0 0 0 25	0	25	0	0	0	0	0	25	Nawr yn safle ysgol
3657	Tir y tu ôl i Bod Eryl	Llanferres	0 10 10 0 0 0 0 0 10 0	0	10	10	0	0	0	10	0	Dim cynnydd
22	Tir ger Trem y Gwernant	Llangollen	0 14 14 0 0 0 0 0 14 0	0	14	14	0	0	0	14	0	Dim cynnydd
3620	Tir y tu ôl i Maes Meurig	Gallt Melyd	0 30 30 0 0 0 0 0 30 0	0	30	30	0	0	0	30	0	Dim cynnydd
3621	Tir y tu ôl i Ffordd Hendre	Gallt Melyd	0 154 154 0 0 0 0 0 154 0	0	154	154	0	0	0	154	0	Aros am benderfyniad ar yr apêl
3619	Fferm Midnant	Prestatyn	0 65 65 0 0 0 0 0 65 0	0	65	65	0	0	0	65	0	Dim cynnydd
3660	Tir i'r de o'r A494	Pwllglas	0 15 15 0 0 0 0 0 15 0	0	15	15	0	0	0	15	0	Dim cynnydd

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uneda u a adeila dwyd Cyfans ers yr wm astudi Capasit aeth i'r Uneda ddiwet Uneda u yn haf u weddill	U/C	2023	2024	2025	2026	2027	2027+	Sylwadau		
3661	Tir ym Minffordd	Pwllglas	0	20	20	0	0	0	0	0	20	0	Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais Cynllunio wedi'i gynnal
3663	Tir y tu ôl i Rhyd y Byll	Rhewl	0	20	6	0	0	0	0	0	6	0	Dim cynnydd
3195	Tir y tu ôl i Dyffryn Teg	Rhualt	0	13	13	0	0	0	0	0	13	0	Dim cynnydd
3664	Tir i'r gorllewin o Dyffryn Teg	Rhualt	0	12	12	0	0	0	0	0	12	0	Dim cynnydd
3665	Tir i'r de o Dyffryn Teg	Rhualt	0	19	19	0	0	0	0	0	19	0	Dim cynnydd
3222	85-90 Rhodfa'r Gorllewin a Ffordd Sandringham	Y Rhyl	0	20	20	0	0	0	0	0	20	0	Dim cynnydd
3618	Cornel Sydenham Avenue/Rhodfa'r Gorllewin	Y Rhyl	0	12	12	0	0	0	0	0	12	0	Dim cynnydd
3116	36 Ffordd Russell	Y Rhyl	0	15	15	0	0	0	0	0	15	0	Dim cynnydd

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uneda u a adeila dwyd Cyfans ers yr wm astudi Capasit aeth i'r Uneda ddiwet Uneda u yn haf u weddill U/C	2023	2024	2025	2026	2027	2027+	Sylwadau	
3631	Tir ger Maes Hafod a Llys Famau	Rhuthun	0 69 69	0	0	0	0	0	69	0	Dim cynnydd
3623	Tir ychwanegol yn HM Stanley	Llanelwy	0 201 201	35	35	30	24	0	0	0	Aros am benderfyniad ar y cais
3624	Tir oddi ar The Paddock	Llanelwy	0 16 16	0	0	0	0	0	0	16	Dim cynnydd
44	Tir ger Maes Gruffydd	Trefnant	0 15 15	0	0	0	0	0	0	15	Dim cynnydd
3666	Tir y tu ôl i Maes yr Erwain	Trefnant	0 25 25	0	0	0	0	0	0	25	Dim cynnydd
3667	Tir y tu ôl i Llys y Tywysog	Tremeirchion	0 10 10	0	0	0	0	0	0	10	Dim cynnydd
		CYFANSYMAU (Preifat)	0 3031 2992	0	35	35	35	29	5	2684	117

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uneda u a adeila dwyd Cyfans ers yr wm astudi Capasit aeth i'r Uneda ddiwet Uneda u yn haf u weddill	U/C	2023	2024	2025	2026	2027	2027+	Sylwadau
	Safleoedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Safleoedd Cyngor										
		CYFANSYMIAU (Cymdeithasau Tai)	0								
		CYFANSYMIAU (gan gynnwys LCC)	0	3031	2992	0	35	35	35	29	5 2684 117

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Table 4: Safleoedd Banc Tir

Atodlenni Safleoedd Banc Tir Sir Ddinbych 2022

Rhagolygon Cyflawniadau

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uned au a adeila dwyd Cyfans ers yr wm astudi Capasit aeth i'r ddiwe Uneda u yn thaf u weddill	Uneda u yn weddill	U/C	2023	2024	2025	2026	2027	2027+	Sylwadau		
Safleoedd Sector Preifat														
3196	Trem y Foel (sef y tir ger Tyn y Bedw)	Bryneglwys	0	19	19	0	0	0	0	0	0	19	0	Cais i ehangu'r amser, problem ffosffad
3638	Tir ger y Fynwent	Carrog	2	12	10	0	0	0	0	0	0	11	0	Cais am 11 yn aros am benderfyniad, problemau ffosffad
3640	Tir ger Crud yr Awel	Clawddnewydd	0	10	10	0	0	2	2	2	2	2	0	RM ar gyfer 12, aros am benderfyniad

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uned au a adeila dwyd Cyfans ers yr wm astudi Capasit aeth i'r ddiwe Uneda u yn weddill U/C	Uneda u yn weddill U/C	2023	2024	2025	2026	2027+	2027	Sylwadau				
3641	Tir y tu ôl i Paradwys	Clawddnewydd	0	10	8	0	2	2	0	0	0	4	0	2	wedi'u hadeiladu, 2 arall wedi'u cymeradwyo
3628	Tir rhwng hen Ffordd Rhuthun a ffordd newydd Rhuthun	Dinbych	58	64	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	Cwblhawyd
3629	Cae Topyn	Dinbych	21	75	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	Cwblhawyd
3807	Cyn Ysgol Howells	Dinbych	1	12	4	3	1	0	0	0	0	0	0	0	Wedi'i gwblhau yn rhannol
3643	Cysgod y Graig cam 1	Dyserth	2	63	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	Cwblhawyd
	Cysgod y Graig cam 2	Dyserth	18	34	16	16	0	0	0	0	0	0	0	0	Yn cael ei adeiladu
3875	Pool Park	Efenechtyd	0	68	68	0	0	0	0	0	0	68	0	0	Dim cynnydd
3062	Gwalia House	Eryrys	0	17	17	0	0	0	0	0	0	17	0	0	Dim cynnydd
3644	Tir ym Mheniarth	Gellifor	0	10	10	0	0	0	0	5	5	0	0	0	Amlinellol

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uned au a adeila dwyd Cyfans ers yr wm astudi Capasit aeth i'r ddiwe Uneda u yn weddill	Uneda u yn weddill	U/C	2023	2024	2025	2026	2027+	2027	Sylwadau		
3646	Tir i'r de o Tan y Graig	Graigfechan	0	10	10	0	0	0	0	5	5	0	0	Dim cynnydd
14	Bryn Llan	Gwyddelwern	0	12	12	0	0	0	0	0	0	12	0	Dim cynnydd
13	Tir i'r de o'r ysgol	Gwyddelwern	0	26	24	2	0	0	0	0	0	24	0	Dim cynnydd
3310	Ffermdy Tŷ Coch - safle EC Evans	Henllan	0	15	15	0	0	0	0	0	0	15	0	Dim cynnydd
3647	Tir i'r de o Cam yr Alyn	Llanarmon yn Iâl	0	12	12	0	0	0	0	0	0	12	0	Yn aros am benderfyniad ar faterion a gadwyd yn ôl, problemau ffosffad
3798	Llanbedr Hall	Llanbedr Dyffryn Clwyd	0	11	11	0	0	0	0	0	0	11	0	Dim cynnydd
3653	Tir y tu ôl i Bodowen	Llandrillo	9	20	10	0	0	0	0	5	5	0	0	Yn cael ei adeiladu

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uned au a adeila dwyd ers yr wm astudi aeth i'r ddiwe thaf	Cyfans ers yr wm Capasit i'r Uneda u yn weddill	Uneda u yn weddill	U/C	2023	2024	2025	2026	2027	2027+	Sylwadau	
3654	Tir ger Maes Llan	Llandyrnog	0	40	40	0	0	10	10	10	10	0	0	Aros am benderfyniad ar y cais
3656	Tir y tu ôl i Bron y Clwyd	Llanfair Dyffryn Clwyd	26	63	9	9	0	0	0	0	0	0	0	Yn cael ei adeiladu
3914	Tir oddi ar Vicarage Road (Maes Llangollen Helyg)		33	95	18	18	0	0	0	0	0	0	0	Yn cael ei adeiladu
31	Tir oddi ar Cefn y Gwrych	Gallt Melyd	0	18	18	0	0	0	0	0	0	18	0	Dim cynnydd
3659	Tir y tu ôl i Dolwar	Pentre Llanrhaeadr	0	33	33	0	0	10	10	10	3	0	0	RM wedi'i ganiatáu yn 2022
3929	74 Gronant Road	Prestatyn	0	11	11	0	7	4	0	0	0	0	0	Dim cynnydd
47	De Ddwyrain y Rhyl	Y Rhyl	60	377	10	10	0	0	0	0	0	0	0	Yn cael ei adeiladu
75	Ysgol Northgate	Y Rhyl	0	22	22	0	0	0	0	0	0	22	0	Dim cynnydd

Adroddiad Monitro Blynyddol 2022

Rhif Cyf yr ACLI	Enw'r safle	Anheddiad	Uned au a adeila dwyd Cyfans ers yr wm astudi Capasit aeth i'r ddiwe Uneda u yn weddill	Uneda u yn weddill	U/C	2023	2024	2025	2026	2027+	2027	Sylwadau		
3617	Tir oddi ar Ffordd Trellewelyn / Bro Deg	Y Rhyl	0	109	109	20	35	35	19	0	0	0	0	Yn cael ei adeiladu
3622	Livingstone Place	Llanelwy	1	158	77	0	2	0	0	0	0	75	0	Yn cael ei adeiladu
3625	Tir oddi ar Bryn Gobaith	Llanelwy	0	14	14	0	7	7	0	0	0	0	0	Wedi dechrau'n dechnegol
		CYFANSYMIAU (Preifat)	231	1440	617	78	54	70	41	37	30	310	0	
		Safleoedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Safleoedd Cyngor												
3959	Lôn Ganol	Dinbych	71	71	0	0	0	0	0	0	0	0	0	Cwblhawyd
